**Suzy Davies (Aelod)**

**Comisiynydd y Cynulliad**
**Assembly Commissioner**

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Hydref 2016

Annwyl Simon

Yn dilyn ein hymddangosiad yn eich Pwyllgor heddiw, rwy'n ysgrifennu i roi rhagor o wybodaeth, yn ychwanegol at yr ymatebion a ddarparwyd gennym yn ystod y cyfarfod. Mae'r wybodaeth wedi'i nodi yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Hoffem ddiolch i'r Pwyllgor am ei waith craffu. Dull y Comisiwn yw ceisio gweithredu gyda didwylledd, tryloywder ac eglurder bob amser. Felly, os oes unrhyw beth arall y gallwn ei ddarparu i gynorthwyo'r Pwyllgor, cofiwch roi gwybod imi.

Yn gywir

Suzy Davies

cc Claire Clancy, Nia Morgan

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel: 0300 200 6528
Ffacs • Fax: 029 2089 8117
E-bost• Email: Sulafa.Thomas@cynulliad.cymru
Ysgrifenyddiaeth Comisiwn y Cynulliad/Assembly Commission Secretariat

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Comisiwn y Cynulliad: Gwybodaeth ychwanegol ar ôl bod gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 5 Hydref 2016**

Bodloni anghenion Pwyllgorau'r Pumed Cynulliad

Mae'r Comisiwn yn barod i ymateb i geisiadau am adnoddau ychwanegol gan Bwyllgorau. Byddem yn annog cadeiryddion Pwyllgorau i drafod eu gofynion gyda Chlerc y Pwyllgor yn y lle cyntaf ac unrhyw ofynion o ran adnoddau ychwanegol, er enghraifft cyngor arbenigol ychwanegol, a byddant yn cael eu hystyried fel mater o flaenoriaeth.

Buddsoddi mewn TGCh a Rheoli Ystadau a Chyfleusterau yn 2018-19

Mae cynlluniau manwl, parhaus yn sail i'r strategaeth gyllidebol, sy'n ein galluogi i gymryd golwg tymor hir ar y gofynion gwariant. Mae'r rhain yn cynnwys cynllun 10 mlynedd ar gyfer cynnal a chadw ac adnewyddu'r ystâd, cynlluniau tair blynedd ar gyfer buddsoddi mewn TGCh, ac adolygiadau blynyddol o gapasiti a gallu'r staff.

Mae gan y Comisiwn gyllideb flynyddol ac nid oes ganddo gyfleuster i gario arian ymlaen o un flwyddyn i'r llall. Fodd bynnag, mae cael cynlluniau clir am y gwaith y gwyddom sydd ei angen, yn ein galluogi i flaenoriaethu a gwneud defnydd ystyrlon a doeth o'n cyllidebau blynyddol.

Gwariant TGCh

Mae buddsoddi mewn TGCh yn canolbwyntio ar alluogi defnyddwyr i weithio mewn ffordd mwy hwylus a hyblyg sy'n cynnwys gwneud mwy o ddefnydd o 'wasanaethau yn y Cwmwl'. Mae'r buddsoddiad yn canolbwyntio hefyd ar wella gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd drwy ddefnyddio technoleg, yn ogystal â gwella mynediad at wybodaeth y Cynulliad a'i gwneud yn fwy defnyddiol.

Gwariant ar Reoli Ystadau a Chyfleusterau

Yn ychwanegol at ein cynllun 10 mlynedd, ac os bydd cyllid yn caniatáu, byddwn yn mynd ati i wella'r ystâd. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau cynaliadwyedd fel newid i oleuadau ynni-effeithlon a gwneud rhagor o welliannau effeithlonrwydd drwy'r system rheoli adeiladau.

Addasiadau i'r Siambr

Gosodwyd cyfrifiaduron y Siambr ar ddechrau 2016 fel rhan o'r gwaith o adnewyddu amgylchedd y Siambr, nad oedd wedi ei newid yn sylweddol ers i'r Senedd gael ei adeiladu yn 2006. Newidiwyd cyfrifiaduron unigol, sgriniau, bysellfyrddau a llygod yr Aelodau Cynulliad am offer modern, mwy ergonomig, a gynlluniwyd i fod yn addas ar gyfer amgylchedd y Siambr. Mae hyn wedi gwneud y cyfarpar TGCh yn y Senedd yn fwy ymarferol, dibynadwy a symlach. Cyfanswm y gost o newid y caledwedd oedd £196,000. Mae'r dechnoleg yn hanfodol i'r Cyfarfod Llawn, i sicrhau, er enghraifft, y gall pob Aelod gael papurau cyfarfodydd ac y gallant fanteisio ar ddulliau effeithlon o negeseua, darllen rhestrau siaradwyr a phleidleisio.

Gofynion y Gyllideb TGCh ar gyfer 2017-18

Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid nifer o gwestiynau penodol ynghylch y gyllideb TGCh a manylir arnynt isod:

1) Sut cafodd y gostyngiad o 12% ei gyfrifo?

   Cyrhaeddodd y gyllideb TGCh ei hanterth yn 2014-15 pan roedd yn £4.45 miliwn. Roedd hynny'n cynnwys £3.02 miliwn o gostau gweithredol a £1.43 miliwn o gostau staffio. Y gyllideb ar gyfer 2017-18 yw £3.89 miliwn, sy'n cynnwys £1.86 miliwn o gostau gweithredol a £2.03 miliwn o gostau staffio.

2) Beth oedd y costau TGCh ar gyfer cyllideb yr etholiad?

   Mae Aelodau'r Cynulliad yn cael dyraniad ar gyfer cyfarpar TGCh ym mhob tymor Cynulliad a gwnaed darpariaeth ar gyfer hyn yng Nghyllideb Costau Etholiad ar gyfer 2016-17. Ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, cafodd yr Aelodau gyfle i drafod eu gofynion TGCh gyda'u rheolwr Cyfrif Cwsmer TGCh a dewis y dyfeisiau mwyaf addas ar gyfer eu hanghenion o 'gatalog' o eitemau hyd at £5,250, gydag unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu talu o'u cyllideb costau Swyddfa. Cymeradwywyd £20,000 arall i dalu am gost cyfrifiaduron pen desg a sgriniau ar gyfer staff y pleidiau gwleidyddol.

3) Pam fod y cynnydd yn y gyllideb ddarlledu yn 2017-18, yna gostyngiad eto yn 2018-19?

   Ym mis Mawrth 2016 cawsom wybod gan S4C eu bod yn bwriadu dileu'r ddarpariaeth Iaith Arwyddion Prydain oddi ar Gwestiynau'r Prif Weinidog oherwydd pwysau cyllidebol. Trafododd y Comisiwn yr opsiynau i ddisodli'r gwasanaeth hwn, yn enwedig yng ngoleuni'r Wobr Ragoriaeth a gawsom gan Action on Hearing Loss Cymru.

   Ers dechrau'r Pumed Cynulliad, rydym wedi darparu'r gwasanaeth hwn gyda Chyngor Cymru i Bobl Fyddar drwy Bow Tie (ein contractwr darlledu). Mae'r cynnydd yn y gyllideb ddarlledu ar gyfer 2017-18 yn adlewyrchu'r cytundeb i barhau â hyn am gyfnod o ddwy flynedd. Wedi hynny, caiff y ddarpariaeth ei hadolygu.

4) Pam fod cynnydd yn y gyllideb ar gyfer Refeniw a Chostau Treuliadwy?

   Diben hyn yw buddsoddi i wella ein seilwaith TGCh, er enghraifft, dechrau rhaglen dreigl o adnewyddu cyfarpar sydd wedi cyrraedd diwedd ei oes ddefnyddiol.

<u>Penderfyniad y Bwrdd Taliadau 2018-19</u>

Mae'r ffigur a geir yn y gyllideb ar gyfer Cyflogau Aelodau'r Cynulliad ac argostau ar gyfer 2016-17 yn £5,840,000. Holodd y Pwyllgor pam fod hwn wedi gostwng i £5,725,000 yn 2017-18.

Mae'r rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn oherwydd y newid i ddeiliad swydd y Cwnsler Cyffredinol. Nid oedd y deiliad blaenorol yn AC ac felly roedd y gyllideb ar gyfer 2016-17 yn adlewyrchu'r gost ar gyfer 61 o ddeiliaid swydd. Mae'r gyllideb ar gyfer 2017-18 yn adlewyrchu 60 o ddeiliaid swyddi yn unig, gan fod y Cwnsler Cyffredinol presennol yn Aelod o'r Cynulliad.

Yn ogystal, wrth baratoi cyllideb 2016-17, gwnaeth y Comisiwn ragdybiaeth ynghylch lefel y cyfraniadau ar gyfer pensiynau Aelodau'r Cynulliad. Cadarnhawyd y ffigur hwnnw ym mis Ebrill eleni ac roedd yn is na'r disgwyl; mae'r ffigur is hwn yn cael ei adlewyrchu yng nghyllideb 2017-18 (ond nid yng nghyllideb 2016-17).

Ymgysylltu ag ysgolion

Mae gennym swyddogion allgymorth sy'n cysylltu ag ysgolion yn rhagweithiol er mwyn eu hannog naill ai i ymweld â ni neu drefnu sesiwn yn eu hysgol.

Hefyd, mae gennym hefyd gynllun Hyfforddiant Proffesiynol ar gyfer athrawon a gweithwyr ieuenctid, felly rydym yn hyrwyddo'r gwasanaeth drwyddynt hwy. Rydym yn hyrwyddo'r gwasanaeth mewn prifysgolion trwy dargedu athrawon dan hyfforddiant a gweithwyr ieuenctid.

Yn ogystal, rydym yn mynd i'r cyfarfod rhwydwaith Cyfranogiad Cymru Gyfan, sy'n gyfle i bob rhanddeiliad gyfarfod a hyrwyddo eu gwasanaethau i bobl ifanc.

Yr oedd 14 o ysgolion uwchradd heb gysylltu â ni erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad. Yr ysgolion hynny oedd:

- Ysgol Uwchradd Bedwas
- Ysgol Gyfun Cardinal Newman RC
- Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi
- Ysgol Gyfun Gymunedol Cwrt Sart
- Ysgol Dyffryn
- Ysgol Gyfun Glan Afan
- Ysgol Uwchradd Llanwern
- Ysgol Maesteg
- Ysgol Uwchradd Mary Immaculate
- Ysgol Gyfun Sandfields
- Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Ioan Fedyddiwr
- Ysgol Sant Martin
- Ysgol Gorllewin Mynwy
- Ysgol Uwchradd Tywyn

Cysylltwyd â'r Aelodau Cynulliad yn ardaloedd yr ysgolion hyn i gael eu cymorth. Hefyd, anfonodd y Llywydd blaenorol lythyr personol i bob ysgol.

Arbedion Caffael – eitemau llai

Cynyddodd targed Gwerth am Arian y Comisiwn dros gyfnod y Pedwerydd Cynulliad, o £350,000 yn 2011-12 i £500,000 y flwyddyn. Fel gyda phob un o'n targedau dangosyddion perfformiad, rydym yn ceisio sicrhau eu bod yn ymestynnol ac yn berthnasol i'n galluogi i gyflawni ein nodau strategol. Byddwn yn parhau i geisio sicrhau arbedion rheolaidd yn y dyfodol drwy negodi telerau contract gwell. Rydym wedi sicrhau arbedion yn ystod y flwyddyn bresennol ar y contract arlwyo. Rydym nawr yn cynyddu ein ffocws ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad.

Ddiwedd mis Medi, cafodd y Pwyllgor Cyllid ein hadroddiad ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliad, a gomisiynwyd gan y Swyddog Cyfrifyddu a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Mae enghraifft benodol o wella effeithlonrwydd am eitem lai yn cael ei disgrifio ar dudalen 19 yr adroddiad effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Cyn mis Tachwedd 2015, roedd 80% o waith argraffu'r Ystafell Argraffu yn cael ei wneud ar bapur A4. Rydym bellach yn argraffu 80% ar A3 ac yna'n torri'r papur i'r maint priodol. Mae 20% o'r papur A4 sy'n weddill yn dal i gael ei ddefnyddio ar gyfer ceisiadau argraffu penodol o ansawdd uchel. O ganlyniad, mae'r costau papur argraffu rhwng mis Tachwedd 2015 a mis Mai 2016 wedi lleihau £8,000, ac er bod rhywfaint o hyn o ganlyniad i lai o alw (y diddymu), mae budd cost amlwg yn deillio o'r newid.

Materion eraill

Mae'n siŵr y bydd gan y Pwyllgor ddiddordeb mewn gwybod hefyd fod y Cynulliad newydd gael ei enwi ymhlith y 10 Cyflogwr Uchaf ar gyfer Teuluoedd sy'n Gweithio. Rydym yn falch iawn o fod yn ôl yn y 10 uchaf ar ôl bod yn y 30 uchaf am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Y 10 Uchaf (yn nhrefn yr wyddor):

- American Express
- Citi
- Deloitte
- DWF LLP

- EY
- Grŵp Bancio Lloyds
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Royal Bank of Scotland
- Cymdeithas Tai Southdown

I gael rhagor o wybodaeth ewch i: http://workingfamilies.org.uk/news/the-top-employers-for-working-families-are-announced/